# CYNIGION TRAFFIG

**Gorchymyn Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Stopio, Aros, Llwytho a Mannau Parcio ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2024 (Diwygiad Rhif 41) Gorchymyn 2026**

Mae Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 1 a 2 Deddf Rheoliadau Traffig Ffyrdd 1984, Rhan 6 Deddf Rheoli Traffig 2004 fel y’i diwygiwyd, Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013, Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir Caerdydd) 2010 a’r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn a fydd yn diwygio’r cyfyngiadau i’ch atal rhag aros a llwytho rhwng 8:30am a 9:15am a 2:45pm a 3:30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener yn:

1) Heol Eglwys ar ochr y de o'r gyffordd â Heol Penalun am 10 metr i'r gorllewin ac ar ochr y gogledd o'r un gyffordd am 9 metr i'r gorllewin
2) Heol Penally ar:
    i) Ochr y de-orllewin o'r gyffordd â Heol Eglwys am 9 metr i’r de ac 8 metr i’r gogledd
    ii) Ochr y de-orllewin o ffin eiddo rhifau 25 a 23 am 31 metr i'r gogledd-orllewin ac o bwynt 3 metr i'r de-ddwyrain o ffin eiddo rhifau 25 (ar gornel Heol Penalun) a 33 am 9 metr i'r gogledd-orllewin
    iii) Ochr y gogledd-ddwyrain o gyferbyn â phwynt 3 metr i'r de-ddwyrain o ffiniau eiddo rhifau 25 a 23 am 57 metr i'r gogledd-orllewin

Caniateir eithriadau ar gyfer y darnau o ffordd a nodir yn yr Atodlen isod am y rhesymau canlynol:
a) mynd i mewn ac allan o gerbyd
b) gwasanaethau hanfodol ac angladdau

Mae manylion y cynnig a'r cynllun sy'n dangos lleoliad a graddfa’r cyfyngiadau arfaethedig ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/gorchmyniontraffig neu drwy sganio’r cod QR isod. Yn ogystal, gallwch gael copïau trwy anfon cais trwy e-bost i gwrthwynebiadaugorchymyntraffigffyrdd@caerdydd.gov.uk neu drwy anfon cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau a sylwadau eraill sy’n ymwneud â’r gorchymyn yn ysgrifenedig ar neu cyn 30 Mehefin 2026 neu mewn e-bost i gwrthwynebiadaugorchymyntraffigffyrdd@caerdydd.gov.uk. Yn achos gwrthwynebiad, rhaid cynnwys datganiad sy’n nodi’r rhesymau dros wrthwynebu. Gellir datgelu gohebiaeth fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Gellir tynnu’r Hysbysiad hwn yn ôl wedi i’r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben. Mae’r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu â chi yn yr iaith o’ch dewis, boed hynny’n Gymraeg, yn Saesneg neu’n ddwyieithog, cyhyd â’ch bod yn dweud wrthym pa un sydd orau gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi. Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.

Dyddiedig 9 Mehefin 2026
Gwasanaethau Cyfreithiol, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW




CARDIFF
CAERDYDD

**THE COUNTY COUNCIL OF THE CITY AND COUNTY OF CARDIFF (PROHIBITIONS AND RESTRICTIONS OF STOPPING, WAITING, LOADING AND STREET PARKING PLACES) (CONSOLIDATION) ORDER 2024**

**NOTE: SEE MAP SCHEDULE LEGEND FOR RESTRICTIONS DISPLAYED**

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Cardiff County Licence No: AC0000816513 2026

AH19
AI18
AJ19

N W E S

Parking Zones:

| | |
|---|---|
| SCALE | 1 : 1250 @ A3 |
| DATE | |
| MAP | Tile Ref: AI19 |
| REVISION | DRAFT |